Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dadansoddi data canlyniadau iechyd a llesiant gofalwyr ifanc i'w defnyddio fel sail ar gyfer polisïau

## Crynodeb

Dyma gyfle cyffrous i ymgymryd â lleoliad gwaith ar brosiect ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd yr interniaeth hon yn gweithio ar dystiolaeth a fydd o gymorth fel sail ar gyfer datblygu ymyriadau polisi i gefnogi gofalwyr ifanc. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys dadansoddi o'r newydd y data meintiol sy'n bodoli eisoes ar iechyd a llesiant pobl ifanc, ac ymchwil gwmpasu ar sut y gall Llywodraeth Cymru fynd ati'n well i gasglu a dadansoddi data o ansawdd ar ofalwyr ifanc. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i ymchwilio, dadansoddi data, a llunio adroddiad, a bydd yn cefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r broses o rannu gwybodaeth am yr ymchwil a'i chyhoeddi. Bydd yr ymgeisydd yn cael y cyfle i roi ei sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, i feithrin ei sgiliau cyffredinol ymhellach ac i wella ei wybodaeth am ymchwil y tu allan i'r byd academaidd.

## Y Sefydliad

Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru ac mae'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a GIG Cymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus a'r amgylchedd yng Nghymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli yn y gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS). Mae KAS yn casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisi a'r cyhoedd yn gyffredinol yn unol â safonau proffesiynol. Maen nhw'n cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisïau.

## Yr Interniaeth

Bydd yr interniaeth yn cynnig cyfle cyffrous i weithio wrth galon Llywodraeth Cymru. Bydd yr intern yn gweithio gyda'r Is-adran Hawliau Plant a Phobl Ifanc mewn Addysg, y timau ymchwil gymdeithasol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Ysgolion. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr cymdeithasol fel rhan o'r interniaeth. Bydd yr interniaeth hefyd yn cynnig cyfle i roi sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, i feithrin sgiliau meintiol a chyffredinol (fel llunio adroddiadau a rhoi cyflwyniadau) ymhellach, ac i wella gwybodaeth am bolisi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, a allai gynnwys mentora, cysgodi, cymorth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Bydd yr interniaid yn elwa ar y profiad o weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru drwy:

- Feithrin dealltwriaeth well o'r byd y tu allan i'r byd academaidd a chynyddu eu cyflogadwyedd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru.
- Dysgu am y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN), sy'n brosiect partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dysgu am y set ddata iechyd a llesiant hon, gweithio mewn partneriaeth a chydweithrediad posibl â phartneriaid.
- Gall cydweithwyr yr intern yn Llywodraeth Cymru daflu rhagor o oleuni ar brosiect PhD yr intern a all gyfrannu at lwyddiant y traethawd ymchwil, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i rwydweithio yn y maes polisi sy'n gysylltiedig â'r maes ymchwil.
- Cael y cyfle i weithio gyda chydweithwyr polisi i ystyried sut y gellir cymhwyso canfyddiadau ymchwil i'r cyd-destun polisi Cymreig.
- Meithrin gwybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy.
- Meithrin sgiliau rheoli amser.
- Meithrin sgiliau llunio adroddiadau.

# Y Prosiect

## Dadansoddi data canlyniadau iechyd a llesiant gofalwyr ifanc i'w defnyddio fel sail ar gyfer polisïau

*Y Cefndir*

Daeth adroddiad thematig Estyn yn 2019 am ofalwyr ifanc i'r casgliad bod diffyg data dibynadwy ar gyfer nodi faint o ofalwyr ifanc sydd mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a cholegau ledled Cymru neu ar gyfer monitro eu cynnydd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn lleoliadau addysg yn amrywio'n fawr. Yn ôl canfyddiadau Estyn, mae'r ysgolion, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion hynny sydd fwyaf effeithiol wrth gefnogi gofalwyr ifanc yn nodi'r dysgwyr hyn, yn olrhain eu hanghenion llesiant yn rheolaidd, ac yn addasu eu darpariaeth i ddiwallu anghenion unigol gofalwyr ifanc. Dim ond rhai lleoliadau addysg sy'n defnyddio system rheoli gwybodaeth i olrhain cynnydd addysgol gofalwyr ifanc ac i adrodd ar hyn. Mae adroddiad Estyn yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynhyrchu data dibynadwy, a gesglir yn genedlaethol, i helpu i nodi gofalwyr ifanc.

Mae cefnogi gofalwyr ifanc yn rhan annatod o fodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i godi safonau a gwella presenoldeb a chyrhaeddiad mewn addysg. Yn ogystal â'r pryderon a godwyd mewn perthynas ag adroddiad Estyn 2019 mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wedi mynegi pryderon am ddiffyg data priodol ar gyfer deall profiadau gofalwyr ifanc ac ymateb iddynt. Mae hyn yn cynnwys diffyg data dibynadwy i Gymru ar yr effaith a gaiff bod yn ofalwr ifanc ar unigolion o ran eu profiadau mewn addysg, gan gynnwys ar eu presenoldeb, eu cyrhaeddiad a'u llesiant.

Gofynnodd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) i ddysgwyr 11-16 oed a ydynt yn ofalwr ifanc mewn arolygon o 2017 i 2023. Yn ogystal â hynny, gofynnwyd i'r

dysgwyr hyn nodi faint o amser maen nhw'n ei dreulio yn gofalu. Felly, mae set ddata SHRN yn darparu set ddata sy'n bodoli eisoes y gellid ei dadansoddi i ddangos effaith bod yn ofalwr ifanc ar iechyd a llesiant dysgwyr, ac ar eu profiad yn yr ysgol yn gyffredinol.

Hoffem wella ein dealltwriaeth o effaith eu rôl ofalu ar ofalwyr ifanc. Byddai hefyd yn ddefnyddiol deall effaith gymharol gofalu o'i gymharu â ffactorau eraill, er enghraifft er mwyn ystyried effaith gymharol ffactorau economaidd-gymdeithasol neu nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys ethnigrwydd, oedran, rhyw, anabledd).

At hynny, hoffem ddeall yr effaith a gaiff y rôl ofalu (os o gwbl) ar: lesiant emosiynol; y gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol; y gallu i gwblhau gwaith cartref; presenoldeb; cyrhaeddiad addysgol; perthynas â chyfoedion; y profiad o fwlio; cefnogaeth gan athrawon.

*Y canlyniadau prosiect a ragwelir:*

- Ystadegau disgrifiadol a dadansoddiad o'r berthynas rhwng statws gofalwr ac amrywiol ganlyniadau iechyd a llesiant sy'n cael eu mesur yn y set ddata SHRN (e.e. llesiant, boddhad â bywyd, gweithgarwch corfforol, perthynas â chyfoedion).
- Dadansoddiad o statws gofalwr gan reoli ar gyfer newidynnau fel oedran, rhywedd, a chyfoeth teuluol mewn perthynas â chanlyniadau iechyd a llesiant.
- Trosolwg byr o'r llenyddiaeth berthnasol (gellir ei ychwanegu at yr adroddiad cryno).
- Adroddiad cryno o'r hyn y gallwn ei ddeall am iechyd a llesiant gofalwyr ifanc o'r data SHRN sy'n bodoli eisoes a'r goblygiadau ar gyfer polisi. Gallai'r adroddiad hefyd archwilio'r camau nesaf posibl o ran casglu data (e.e. sut y gallem lenwi bylchau mewn tystiolaeth am ofalwyr ifanc drwy addasu'r arolygon presennol fel SHRN neu'r cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) ac o ran dadansoddi data, e.e. crynodeb o'r hyn y gellid archwilio iddo drwy gysylltu â setiau data eraill ym manc data SAIL (e.e. cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb).
- Cyflwyniad o'r canfyddiadau i dimau polisi ac ymchwil gymdeithasol perthnasol.
- Cyhoeddi adroddiad ymchwil ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Cyfrifoldebau a gofynion yr interniaeth

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o hyd at dri mis. Disgwylir i fyfyrwyr llawn amser gamu'n ôl o'u PhD i ganolbwyntio ar yr interniaeth am ei gyfnod, yn unol â chanllawiau ESRC (Canllaw Cyllido Ôl-raddedig ESRC tud. 27).Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng y cartref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod yr interniaeth. Gall hyn newid, gan ddibynnu ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau gweithio yn cael eu trafod â'r ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 3 mis amser llawn, neu'r hyn sy'n gyfwerth â hynny fel trefniant rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru'n rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy (o leiaf tri diwrnod yr wythnos waith), i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

**Manyleb y myfyriwr**

Rhaid i'r myfyriwr feddu ar y canlynol:

- Sgiliau dadansoddi data meintiol, gan gynnwys y gallu i ymgymryd ag ystod o dechnegau ystadegol, rhifiadol a dadansoddol (gweler y tabl isod) gan ddefnyddio meddalwedd briodol fel STATA, SPSS, R, neu Python
- Sgiliau arfarnu tystiolaeth cryf
- Y gallu i gynnal trafodaethau â thimau polisi i ddeall eu hanghenion ac i gynnal ymchwil ddesg a dadansoddi data
- Y gallu i werthuso canfyddiadau ymchwil a gweithio gyda chydweithwyr polisi i ystyried sut y gellir eu cymhwyso
- Y gallu i lunio dogfennau cryno, wedi'u hysgrifennu'n dda, gan gyflwyno tystiolaeth gymhleth mewn fformat hygyrch

| | | |
|---|---|---|
| Ystadegau disgrifiadol | Cymedr, canolrif, modd, tablau amlder, croesdablu | Crynhoi ac archwilio data |
| Delweddu data | Histogramau, plotiau blwch, plotiau gwasgariad, siartiau bar | Nodi patrymau a dosbarthiadau |
| Glanhau a pharatoi data | Trin data coll, ailgodio newidynnau, creu newidynnau dymi | Paratoi data i'w dadansoddi |
| Ystadegau casgliadol | Profion-t, profion chi-sgwâr, ANOVA | Profi gwahaniaethau rhwng grwpiau |
| Modelu atchweliad | Atchweliad llinol, atchweliad logistaidd, atchweliad amlamryweb | Archwilio cysylltiadau a rheoli ar gyfer newidynnau drysu |
| Rheolaeth amlnewidyn | Termau rhyngweithio, dadansoddi haenedig, paru sgorau tueddiad | Addasu ar gyfer oedran, rhywedd, statws economaidd-gymdeithasol, etc. |
| Casgliadau achosol | Dadansoddi hydredol, effeithiau penodedig, newidynnau cyfryngol | Cryfhau honiadau achosol |

## Dyddiad dechrau'r interniaeth

Ionawr 2026. Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd gan ddibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn.

Cysylltwch â freya.pryce@llyw.cymru i drafod amserlen ddangosol y prosiect.

## Cyllid a chostau

Gellir talu costau teithio rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt fel arfer wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru. Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Katy Marrin Katy.Marrin001@llyw.cymru a Jo Coates Joanne.Coates@llyw.cymru.

## Diogelwch

Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n berthnasol i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys llenwi ffurflen gais gwiriad y Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch at ddiben fetio diogelwch.

Yn unol â'r broses hon, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno tair ffurf wreiddiol o ddogfennau adnabod. Dylai un o'r rhain gynnwys ffotograff (pasbort, trwydded yrru newydd), dylai un ddogfen ddangos cyfeiriad presennol yr ymgeisydd, a dylai un ddogfen fod yn un o'r canlynol: bil cyfleustodau, tystysgrif geni, ffurflen P45 neu P60.

## Gofynion cenedligrwydd

Mae cymhwysedd ar gyfer interniaeth ar y cynllun hwn yn dibynnu ar fodloni rheolau Cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys cyn gwneud cais. Ni fydd y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu ymgymryd â lleoliad.

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y swydd neu'r broses ymgeisio at freya.pryce@llyw.cymru

## Hysbysiad preifatrwydd

https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru